

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Trosolwg proses hawlio Taliad Annibyniaeth Personol: taith yr hawlydd



Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae taith yr hawlydd yn esbonio sut mae'r broses hawlio ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn gweithio. Edrychwch yn www.gov.uk/dwp/pip-toolkit ar gyfer y fersiwn diweddaraf ac am wybodaeth arall i addasu eich arweiniad a chyfathrebiadau. Diweddarwyd y fersiwn hon ym mis Mawrth 2014.

Mae pum prif gam i hawlio Taliad Annibyniaeth Personol:

- 1) Meddwl am hawlio
- 2) Gwneud cais
- 3) Dweud eich stori
- 4) Asesiad
- 5) Penderfyniad

Meddwl am hawlio

Ceisiadau newydd PIP

Cam 1: Gall yr hawliwr edrych ar y wybodaeth PIP sy'n esbonio meini prawf cymhwyster ac sy'n helpu'r hawlydd i benderfynu os ydynt am wneud cais. Mae'r wybodaeth hon ar gael o sawl ffynhonnell:

- Ar-lein
- Sefydliadau cymorth
- Taflenni
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Meddygon Teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Teulu a Ffrindiau

Mae'r wybodaeth fwyaf diweddar ar gael ar-lein, mewn taflenni'r Adran Gwaith a Phensiynau a sefydliadau cymorth. Rydym yn darparu gwybodaeth drwy'r [pecyn cymorth PIP](#) ar gyfer sefydliadau cymorth i helpu hwy i helpu hawliwr.

Ar gyfer hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) presennol

Cam 1:

O fis Hydref 2013, dechreuom ailasesu rhai hawlwyr DLA presennol ar gyfer PIP - gweler y [daflen ffeithiau ailasesu](#) am ragor o wybodaeth.

Nid oes angen i hawlwyr DLA presennol (rhwng 16 a 64 oed ar 8 Ebrill 2013) gweithredu hyd nes y byddwn yn cysylltu â hwy. Fodd bynnag, rhaid iddynt roi

gwybod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau yn ôl yr arfer ac os ydynt mewn [cod post ailasesu](#) gallant ddewis hawlio PIP yn lle DLA.

Ar ôl mis Hydref 2015, bydd yr holl hawlwy DLA sy'n weddill (rhwng 16 a 64 oed ar 8 Ebrill 2013) yn cael eu gwahodd i wneud cais am PIP. Byddwn yn dewis yr hawlwy DLA hynny sy'n cael dyfarniad amhenodol neu ddyfarniad cyfnod penodol, ac yn eu hysbysu am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i hawlio PIP.

Os yw hawliwr DLA presennol yn gwneud cais am PIP, bydd eu taliadau DLA fel arfer yn parhau hyd nes y gwneir penderfyniad ar eu cais am PIP. **Os byddant yn penderfynu peidio â gwneud cais am PIP, bydd eu DLA yn dod i ben.**

Gwneud cais

Mae ceisiadau am PIP yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl ar hyn o bryd. Mae'r amser gwirioneddol i wneud cais yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Rydym yn gweithio gyda darparwyr asesu i gyflymu'r broses hawlio. Erbyn yr hydref 2014 rydym yn disgwyl ni fydd unrhyw un yn aros yn hirach na 26 wythnos am asesiad o'r dyddiad y maent yn cael eu ffurflen "Sut mae eich Anabledd yn Effeithio Arnoch". Ni fydd unrhyw oedi y bydd yr hawlydd yn ei gael yn effeithio ar y dyddiad y bydd eu budd-dal yn cael ei dalu.

Cam 2: Gellir gwneud ceisiadau drwy ffonio 0800 917 2222 neu ffôn testun 0800 917 7777.

Bydd ffurflenni cais papur yn eithriad ar gyfer yr hawlwy hynny nad ydynt yn gallu gwneud cais dros y ffôn.

Bydd y wybodaeth gychwynnol sydd ei angen i wneud cais am PIP yn wybodaeth sylfaenol sy'n cwmpasu:

- Manylion personol a chyswllt yr hawlydd
- Manylion preswyllo (a elwir yn preswyllo a phresenoldeb)
- Cyfnodau perthnasol a dreulir yn yr ysbyty, gofal preswyl
- Ceisiadau o dan reolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol, a
- Manylion talu (cyfrif banc), a
- Beth yw eu prif salwch neu anableddau?

Gall helpu i gyflymu'r cais os bydd y galwr yn cael y wybodaeth hon yn barod cyn ffonio.

Gall yr alwad ffôn gychwynnol hefyd cael ei wneud gan rywun sy'n cefnogi'r hawliwr, fel sefydliad cymorth neu aelod o'r teulu. Bydd angen iddynt fod gyda'r hawliwr pan fyddant yn ffonio a bydd angen i'r hawlydd bodloni gwiriad adnabod cyflym.

Cam 3: Byddwn yn nodi anghenion cyfathrebu, fel fformatau amgen, ac

ystyried a oes angen cymorth ychwanegol ar yr hawlydd.

Caiff dyddiad y cais ei osod ar adeg yr alwad ffôn. Byddwn yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf i'r hawlydd.

Cam 4: Byddwn yn gwirio amodau cymhwyster sylfaenol. Os **nad** yw'r rhain yn cael eu bodloni, bydd llythyr gwahardd yn cael ei anfon.

Cam 5: Byddwn yn postio ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' at yr hawlydd. Caiff ei gyfeirio at yr unigolyn ac mae ganddi god bar i gyflymu'r gwaith prosesu pan gaiff ei dychwelyd. Dylai'r hawlydd gael y ffurflen o fewn 2 wythnos o wneud yr alwad gychwynnol.

Dweud eich stori

Cam 6: Mae'r ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' rydym yn anfon ar ôl yr alwad ffôn yn caniatáu i'r hawlydd esbonio sut mae eu cyflwr yn effeithio arnynt yn eu geiriau eu hunain. Mae gan rai pobl anabl cyflyrau sy'n amrywio sydd yn effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol ar ddiwrnodau 'da a drwg'. Gallant ddefnyddio'r ffurflen i egluro hyn. Bydd gwybodaeth am sut i gwblhau'r ffurflen yn cael ei chynnwys a hefyd ar gael ar-lein.

Gall hawlwr gofyn i rywun fel aelod o'r teulu neu sefydliad cymorth i'w helpu i gwblhau'r ffurflen. Mae'r pecyn cymorth PIP yn cynnwys gwybodaeth i helpu sefydliadau cymorth i helpu hawlwr.

Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r ystod ehangaf o dystiolaeth pan fyddwn yn asesu eich cais er mwyn sicrhau bod eich dyfarniad PIP yn cael ei wneud yn gywir a'ch bod yn cael eich talu'n brydlon.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn ein darparu gydag unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth berthnasol sydd gennych yn barod sy'n esbonio sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch.

Nid ydym angen gweld gwybodaeth gyffredinol am eich cyflwr - rydym angen gwybod sut rydych yn cael eich effeithio yn bersonol.

Nid oes angen i'r dystiolaeth gefnogol a anfonwch i fod yn ddiweddar, ond dylai fod o fewn y 2 flynedd ddiwethaf ac yn berthnasol i'ch cyflwr presennol.

Anfonwch unrhyw ddogfennau sydd gennych cyn gynted ag y bo modd. Gallwch ddefnyddio'r un amlen â'ch ffurflen 'Sut Mae Eich Anabledd yn Effeithio Arnoch' sydd wedi'i lenwi. Gall unrhyw oedi mewn anfon tystiolaeth olygu:

- Bydd yn cymryd mwy o amser i wneud penderfyniad ar eich cais PIP, neu

- Efallai y bydd rhaid i chi fynychu ymgynghoriad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechedd proffesiynol pan efallai na fyddai wedi bod angen, neu
- Efallai na fyddwn yn gallu cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud y penderfyniad cywir ar eich cais

Dylech ond anfon llungopïau o bethau sydd eisoes gennych ar gael. Peidiwch â gofyn am ddogfennau eraill a allai arafu eich cais neu efallai y byddwch yn gorfod talu ffi amdanynt - er enghraifft, gan eich Meddyg Teulu. Os byddwn angen hyn byddwn yn gofyn amdano ein hunain gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir gennych ar eich ffurflen. Dyna pam rydym angen i chi ddweud wrthym pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r dystiolaeth hon. Gallai hefyd helpu os ydych yn rhoi gwybod iddynt y gallwn gysylltu â nhw am wybodaeth i helpu i benderfynu ar eich cais.

Dyma rai enghreifftiau o bethau a allai helpu i benderfynu ar eich cais. Peidiwch â phoeni os mai dim ond rhai ohonynt sydd gennych - anfonwch atom cymaint o'r pethau a restrir sydd gennych yn barod. Ceir hefyd enghreifftiau o bethau nid oes angen inni ei weld ar yr ochr dde.

| Tystiolaeth a fydd yn ein helpu i asesu eich cais PIP | Pethau nad ydym angen eu gweld |
|---|---|
| <p>Adroddiadau amdanoch gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meddygon Teulu • Meddygon ysbyty • Nyrsys arbenigol • Nyrsys Seiciatrig Cymunedol • Therapyddion Galwedigaethol • Ffisiotherapyddion • Gweithwyr Cymdeithasol • Gweithwyr cymorth • Cwnseliaid. | <p>Llythyrau am apwyntiadau meddygol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amseroedd • Dyddiadau • Cyfarwyddiadau. |
| <p>Eich cynlluniau gofal neu driniaeth gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Therapyddion Galwedigaethol • Gweithwyr Cymdeithasol • Nyrsys Seiciatrig Cymunedol • Timau cymorth anabledl dysgu. | <p>Gwybodaeth gyffredinol neu ffeithlenni am eich cyflwr(cyflyrau) sydd ddim amdanoch chi'n bersonol.</p> |
| <p>Eich canlyniadau profion meddygol fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganiau • Profion diagnostig • Awdioleg • Pelydr-x. | <p>Gwybodaeth am brofion rydych yn mynd i'w cael.</p> |
| <p>Eich llythyrau gadael allan o'r ysbyty.</p> | <p>Lluniau.</p> |
| <p>Eich llythyrau clinig claf allanol.</p> | <p>Llythyrau am fudd-daliadau eraill.</p> |
| <p>Eich rhestrau presgripsiwn presennol.</p> | <p>Ffeithlenni am eich meddyginiaeth.</p> |
| <p>Eich datganiad o anghenion addysgol arbennig .</p> | <p>Llythyrau gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teulu • Ffrindiau • Cymdogion • Ymgynghorwyr Hawliau Lles. |
| <p>Eich tystysgrif o nam ar y golwg.</p> | |

Asesiad

Cam 7: Trosglwyddir gwybodaeth y cais, y ffurflen wedi'i chwblhau ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol i weithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio i ddarparwr asesu (AP).

Cam 8: Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol AP yn penderfynu os oes angen unrhyw dystiolaeth bellach a bydd yn gwneud yr holl drefniadau i gael hyn.

Efallai y bydd rhai asesiadau yn cael eu cwblhau ar yr adeg hon, megis os bydd rhywun yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer salwch terfynol neu os yw'r dystiolaeth ysgrifenedig yn ddigonol.

Bydd y rhan fwyaf yn cael eu gofyn i fynyachu ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb.

Angen ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb

Cam 9: Bydd yr AP yn gwahodd yr hawlydd i ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb. Os yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol AP yn credu y bydd angen iddynt siarad â'r hawlydd, byddant yn cysylltu â'r hawlydd ac yn eu gwahodd i ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb. Gall hawlwr gysylltu â'r gweithiwr iechyd proffesiynol AP i ofyn cwestiynau am yr ymgynghoriad neu aildrefnu'r apwyntiadau.

Pan fydd yr hawlydd yn mynychu ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol AP byddant yn gofyn i'r hawliwr esbonio sut mae eu cyflwr yn effeithio arnynt o ddydd i ddydd. Efallai y bydd yr hawlydd hefyd yn gallu darparu dystiolaeth ychwanegol.

Anogir hawlwr i fynd â rhywun gyda hwy i'r ymgynghoriad am gefnogaeth. Gall unrhyw un sy'n mynd cymryd rhan weithredol yn y drafodaeth lle y bo angen.

Nid oes angen ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb

Cam 9: Os yw'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn penderfynu nad oes angen ymgynghoriad wyneb-yn-wyneb byddant yn adolygu'r holl dystiolaeth yn erbyn set o weithgareddau dyddiol a disgrifyddion clir i asesu'r heriau a wynebir gan yr unigolyn.

Ar gyfer pob hawlydd

Cam 10: Mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol AP yn adolygu'r holl dystiolaeth yn erbyn set o weithgareddau dyddiol a disgrifyddion clir i asesu'r heriau a wynebir gan yr unigolyn.

Yna bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn anfon adroddiad yn ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w helpu i lywio eu penderfyniad.

Penderfyniad

Cam 11: Bydd Swyddog Penderfyniadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn adolygu'r dystiolaeth y maent wedi ei derbyn - gan gynnwys yr adroddiad gan y gweithiwr iechyd proffesiynol AP. Byddant yn gwneud penderfyniad rhesymedig ar yr hawliad, lefel y dyfarniad a hyd unrhyw ddyfarniad.

Cam 12: Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn postio llythyr penderfyniad i'r hawlydd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gwnaethpwyd y penderfyniad. Mae hefyd yn egluro ffynonellau eraill o gymorth sydd ar gael.

Gall hawlwr ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau i ofyn am fwy o wybodaeth am y penderfyniad.

Os caiff y cais ei wrthod, neu os caiff dyfarniad sy'n bodoli eisoes ei leihau, bydd y Swyddog Penderfyniadau yn ceisio ffonio'r hawlydd i esbonio'r penderfyniad. Os bydd yr hawlydd yn anghytuno â'r penderfyniad gallant ofyn i'r Swyddog Penderfyniadau i edrych arno eto - gelwir hyn yn ailystyriaeth.

Bydd hawlwr DLA presennol wedi cael eu hailasesu o dan y rheolau PIP yn parhau i gael DLA tan 28 diwrnod ar ôl eu diwrnod talu nesaf, hyd nes y bydd y penderfyniad PIP yn dod i rym.